



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthusiad o effeithiau Datrys Tlodi Plant Cymru

Crynodeb Ymchwil

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 52/2012

Gwasanaeth gan Achub y Plant yw Datrys Tlodi Plant Cymru, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael â thlodi plant. Comisiynwyd Arad Research i werthuso effeithiau Prosiect Datrys Tlodi Plant Cymru ers 2010. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad.

## Canfyddiadau:

- Llwyddodd Datrys Tlodi Plant Cymru (y Prosiect) i gyrraedd ei holl nodau a chynnig cefnogaeth i'r holl awdurdodau Cymreig. Cafodd y gefnogaeth ei darparu drwy gyfrwng cyfarfodydd unigol, cyngor dros y ffôn a'r e-bost, deunyddiau a ddarparwyd yn uniongyrchol ac ar wefan y Prosiect, a thrwy gyfrwng hyfforddiant a digwyddiadau.
- Roedd yr ymgynghoreion yn unfryd yn eu canmoliaeth o natur, cywair a hygyrchedd y gwasanaeth. Bu'r gefnogaeth yn fodd iddynt ddeall tlodi plant yn well, dadlau eu hachos i gydweithwyr drwgdybus, arbed amser yn chwilio am ddeunyddiau ar gyfer eu strategaethau a sefydlu perthynas weithio newydd gyda phartneriaid. Yn sgil hyn, aeth mwy o awdurdodau ati i greu strategaethau tlodi plant, ac roedd y strategaethau a grëwyd yn ystyried yn fanylach oblygiadau'r dasg o fynd i'r afael â thlodi plant.
- Erys yr her o gynnal ffocws ar dlodi plant yn wyneb pwysau ar gyllidebau a newidiadau i bolisiau a sefydliadau. Roedd yr awdurdodau o'r farn bod yr angen yn parhau am gefnogaeth sy'n canolbwyntio ar dlodi plant.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

## **Y dull gwerthuso**

Cynhaliwyd y gwerthusiad wrth i gyfnod cytundeb y Prosiect ddod i ben. Roedd yn seiliedig ar gyfuniad o adolygiadau desg o strategaethau tlodi plant yr awdurdodau a chyfweliadau â chydgyssylltydd y Prosiect, yr awdurdodau Cymreig a sefydliadau partner.

## **Canfyddiadau**

### ***Natur y gefnogaeth***

Rhodddwyd cefnogaeth i awdurdodau cyhoeddus er mwyn eu galluogi i gasglu data, cynnal asesiadau o anghenion, pennu blaenoriaethau ac, yn y pen draw, cynhyrchu strategaethau tlodi plant.

Gwnaed hyn drwy gyfrwng:

- Cefnogaeth uniongyrchol i awdurdodau Cymreig, drwy gyswllt wyneb yn wyneb, cyswllt dros y ffôn a'r e-bost, hyfforddiant a digwyddiadau.
- Gwefan y Prosiect, yn cynnwys testun a fideos yn diffinio tlodi plant, canllawiau polisi a llyfrgell o dystiolaeth.

Ar y cyfan, roedd y cyfweleion o'r farn bod y rhaglen gefnogaeth yn effeithiol iawn ac wedi'i darparu'n dda. Nid oedd modd i'r awdurdodau gael cefnogaeth arall. Yn benodol, roeddent yn gwerthfawrogi'r **cyswllt gydag un unigolyn**, ac yn arbennig ei rôl wrth herio a hyrwyddo ffyrdd newydd o feddwl am dlodi plant. Roedd croeso i'r **wefan** er bod rhai materion wedi codi, yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith nad yw'r safle bob amser yn gyfredol, bod rhai o'r dolenni ar goll, ac nad oedd yn cynnwys copiâu at strategaethau a oedd wedi'u

cyhoeddi neu ddolenni atynt. Roedd y **digwyddiadau** yn rhan bwysig o'r rhaglen gefnogaeth, yn enwedig am eu bod yn gyfleoedd da i rwydweithio a rhannu syniadau. Cafwyd adborth cadarnhaol ar yr **hyfforddiant** a ddarparwyd i fwy na 570 o gyfranogwyr yn ystod 2010-2012.

### ***Trosolwg o'r Canlyniadau***

Dangosodd y cyfweliadau lefelau uchel iawn o foddhad gydag ansawdd y gefnogaeth, ac arweiniodd hyn at yr allbynnau a'r canlyniadau canlynol:

### ***Cefnogaeth wrth ddadlau eu hachos i***

***gydweithwyr:*** Bu'n rhaid i unigolion a oedd yn gyfrifol am lunio'r strategaethau tlodi plant ddadlau eu hachos o fewn yr awdurdod. Roedd mewnbwn y Prosiect o gymorth ymarferol wrth helpu staff yr awdurdodau i weld y cysylltiad rhwng tlodi plant a gwaith yr awdurdodau.

### ***Cefnogaeth wrth ddrafftio strategaethau***

***tlodi plant:*** Roedd yr ohebiaeth ar y strategaethau drafft yn digwydd drwy gyfrwng yr e-bost a dros y ffôn yn bennaf, ac mewn rhai achosion, rhodddwyd sylwadau ar sawl drafft. Roedd yr adborth ar y fersiynau drafft cynnar yn rhoi'r hyder a'r wybodaeth ychwanegol yr oedd ei hangen ar awdurdodau er mwyn bwrw ymlaen â'r drafft terfynol.

### ***Gwell ddealltwriaeth o dlodi plant:***

Dyweddodd y cyfweleion eu bod wedi'u hannog i feddwl am, ac ymgysylltu ag

ymchwil bellach ar dlodi plant. Mae'r Prosiect wedi arwain at fwy o ymwybyddiaeth o dlodi plant. Mae amrywiaeth ehangach o aelodau staff bellach yn rhan o drafodaethau am dlodi plant.

***Mwy o strategaethau'n cael eu cynhyrchu, a'r rheiny'n strategaethau cadarn:***

Mewn dau achos, anogwyd awdurdodau i lunio strategaethau y mae'n bosibl na fyddent wedi'u cynhyrchu fel arall. Dywedodd sawl un o'r cyfweleion bod eu strategaethau yn 'fwy ystyrlon' ac yn fwy perthnasol a chadarn oherwydd cyfraniad Datrys Tlodi Plant.

***Sefydlu partneriaethau newydd a ffyrdd newydd o weithio:***

Mae'r digwyddiadau a'r cysylltiadau a wnaed drwy'r Prosiect wedi esgor ar bartneriaethau newydd. Nid yw'r cysylltiadau hynny wedi'u cyfyngu i waith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â thlodi plant, ond yn hytrach, maent wedi gorlifo i agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau.

***Arbed amser yr awdurdodau:***

Dywedwyd y byddai staff yr awdurdodau fel arall wedi treulio mwy o amser o lawer yn paratoi'r strategaethau ac yn chwilio am ddeunyddiau dros eu hunain. Nid oedd pob un o'r awdurdodau wedi newid eu llwybr oherwydd Datrys Tlodi Plant. Roedd ambell un yn hyderus yn eu gwybodaeth o'r pwnc a heb deimlo'r angen i dynnu'n helaeth ar gefnogaeth y Prosiect.

Cafwyd enghreifftiau o effeithiau pellach yn ystod y gwaith maes, megis gweithgareddau newydd, mynd ati'n fwy systematig i ymgysylltu â grwpiau dan anfantais, a thlodi plant yn ymddangos yn amlycach ar agendâu. Er eu bod yn gysylltiedig â gwaith y Prosiect, mae'r gweithgareddau hyn yn deillio i raddau helaeth o'r Mesur a'r rhwymedigaeth ar awdurdodau i baratoi Strategaethau Tlodi Plant, ac nid o'r gefnogaeth a dargedwyd.

**Anghenion y dyfodol**

Y brif neges gan awdurdodau oedd bod angen o hyd am gefnogaeth tlodi plant. Erys llawer o'r heriau a amlinellir, megis dadlau'r achos i gydweithwyr neu chwilio am dystiolaeth. Mae'r gwaith o roi awdurdodau mewn cysylltiad â phrosiectau eraill a darparu adnoddau yn parhau, yn ogystal â'r gwaith o ddiweddarau'r wefan. Y prif anghenion o ran y gefnogaeth yn y dyfodol fydd canllawiau ar y gwaith monitro a gwerthuso, delio â thoriadau i gyllidebau, ymateb i newidiadau i drefniadau llywodraethu sefydliadau, newidiadau i bolisiâu a briffio staff newydd.

**Gwerth am Arian**

Mae'r data sydd ar gael a natur y Prosiect yn golygu nad oes modd gwneud ond astudiaeth gyfyngedig o werth am arian. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bu Datrys Tlodi Plant yn effeithiol wrth gyflawni'r holl amcanion a bennwyd, ac mae'r gefnogaeth wedi diwallu anghenion yr awdurdodau Cymreig. Roedd y strwythur gweinyddu yn

briodol, ac mae'r lefel uchel o foddhad gyda'r gefnogaeth a ddarparwyd wedi sicrhau canlyniadau.

## **Casgliadau**

### ***Ffactorau Llwyddiant Allweddol***

Mae'r model o gorff penodol yn gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o lunio strategaethau tlodi plant yn cael ei werthfawrogi'n eang. Factor allweddol yn llwyddiant y Prosiect oedd ei egwyddor syml a'i neges gyson a chlir; y ffaith ei fod yn darparu anogaeth a chefnogaeth wedi'i theilwra; a'i fod ar wahân i'r Llywodraeth. Roedd y cyfweleion o'r farn na fyddent yn cael yr un graddau o ddealltwriaeth gan swyddogion y Llywodraeth.

Fodd bynnag, lleisiodd lleiafrif o randdeiliaid bryderon am agweddau ar y broses ddarparu. Roedd rhai o'r pryderon hyn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd y wefan yn cael ei gynnal yn llawn, ac nad oedd gan y Prosiect ddealltwriaeth fanwl o'r awdurdodau. Roedd pryderon hefyd bod y gefnogaeth yn canolbwyntio'n ormodol ar Gaerdydd, nad oedd yn rhoi digon o ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, a bod cyfleoedd wedi'u colli i gynnwys yr awdurdodau yn fwy.

### ***Cyrraedd Nodau***

Llwyddodd y Prosiect i gyrraedd y nodau a bennwyd:

***Nod 1: Ymestyn a datblygu ei waith cyfredol, drwy gyfrwng cydgysylltydd prosiect penodol*** – Roedd cydgysylltydd wedi'i benodi ers dechrau'r Prosiect ym

mis Ebrill 2010. Cynigiwyd cefnogaeth i'r holl awdurdodau cyhoeddus.

***Nod 2: Cynnal a gwella adnodd gwe presennol*** – Lansiwyd gwefan newydd ym mis Tachwedd 2011. Mae'r wefan yn destun ymddiriedaeth, yn gynhwysfawr ac yn apelio'n weledol. Fodd bynnag, nododd sawl un o'r awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn gwneud llawer o ddefnydd o'r wefan, a chafwyd mân gwynion nad oedd deunyddiau yn ymddangos ar y wefan neu fod dolenni ar goll.

***Nodau 3 a 4: Cefnogi awdurdodau Cymreig wrth fodloni eu dyletswyddau a chodi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau i fynd i'r afael â thlodi plant*** – Roedd yr unigolion a oedd yn gyfrifol am baratoi strategaethau tlodi plant yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth. Roedd y cyfarfodydd unigol yn gyfle i drafod agweddau penodol yn drylwyr. Roedd llawer yn ystyried mai'r digwyddiadau oedd agwedd bwysicaf y Prosiect, a'u bod yn gyfle gwerthfawr i rwydweithio.

***Nod 5: Hyrwyddo Datrys Tlodi Plant Cymru i gynulleidfa oedd newydd*** – Enillodd y Prosiect ei blwyf fel ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth a chefnogaeth i'r awdurdodau Cymreig. Drwy hynny, bu modd cysylltu â meysydd eraill megis addysg ac iechyd. Mae hyfforddiant wedi'i gyflwyno yn ystod digwyddiadau penodol ar gyfer y sector iechyd, a gwnaed cysylltiadau â sectorau eraill.

Awdur: Arad Research  
ISBN 978-0-7504-8634-7